**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 9

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

*Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill*

### 136 Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon neu ddarpariaeth a wneir odani yn ei gwneud yn ofynnol i berson neu'n awdurdodi person i—

(a) hysbysu person arall am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson arall (pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r gair "cyflwyno" neu "rhoi" neu derm arall).

(2) Caniateir rhoi'r hysbysiad neu'r ddogfen arall i'r person o dan sylw—

(a) drwy ei draddodi neu ei thraddodi i'r person, neu, yn achos person sy'n gorff corfforedig, ei draddodi neu ei thraddodi i ysgrifennydd neu glerc y corff yn ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa;

(b) drwy ei adael neu ei gadael ym man preswylio arferol neu fan preswylio hysbys diwethaf y person neu, os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, yn y cyfeiriad hwnnw,

(c) drwy ei anfon neu ei hanfon drwy'r post mewn llythyr rhagdaledig—

(i) wedi ei gyfeirio at y person ym man preswylio arferol neu fan preswylio hysbys diwethaf y person, neu, yn achos person sy'n gorff corfforedig, wedi ei gyfeirio at ysgrifennydd neu glerc y corff yn ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa;

(ii) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, wedi ei gyfeirio at y person yn y cyfeiriad hwnnw;

(d) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, drwy ei anfon neu ei hanfon at y person yn y cyfeiriad hwnnw gan ddefnyddio cyfathrebiad electronig sy'n cydymffurfio â'r amodau yn is-adran (3);

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(e) drwy unrhyw ddull arall a bennir mewn rheoliadau.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod modd i'r person yr anfonir y ddogfen ato gael gafael ar y ddogfen,

(b) bod y ddogfen yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol, ac

(c) bod modd defnyddio'r ddogfen i gyfeirio ati yn nes ymlaen.

(4) Cydymffurfir â gofyniad i roi mwy nag un copi o ddogfen i berson drwy anfon un copi yn unig o'r ddogfen at y person ar ffurf electronig, oni fo'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r copïau gael eu rhoi ar ffurf copi caled.

(5) At ddibenion yr adran hon prif swyddfa cwmni sy'n gofrestredig y tu allan i'r Deyrnas Unedig yw ei brif swyddfa o fewn y Deyrnas Unedig.

(6) Mae hysbysiad neu ddogfen arall a roddir i berson drwy ei adael neu ei gadael yng nghyfeiriad y person o dan is-adran (2)(b) i'w drin neu i'w thrin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai wedi ei roi neu ei rhoi ar yr adeg y'i gadawyd yn y cyfeiriad hwnnw.

(7) Mae hysbysiad neu ddogfen arall a roddir i berson drwy ei anfon neu ei hanfon ar ffurf electronig yn unol â'r adran hon i'w drin neu i'w thrin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai wedi ei roi neu ei rhoi, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar y diwrnod yr anfonwyd y cyfathrebiad electronig.

(8) Nid yw is-adran (2)(c) a (d) yn gymwys i roi—

(a) hysbysiad o dan adran 106(4) (hysbysiad o fwriad i fynd ar dir heb warant);

(b) hysbysiad o dan adran 111 (hysbysiadau gwybodaeth);

(c) hysbysiad o dan adran 113 (hysbysiad datblygiad anawdurdodedig).

(9) Gweler adran 233 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) am ddarpariaeth ychwanegol ynghylch y dulliau y caiff awdurdodau lleol eu defnyddio i gyflwyno dogfennau.